

Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Arweiniad ar ddefnyddio Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau

Cefndir y Fframwaith

Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei ddatblygu gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn partneriaeth â New Economics Foundation (NEF) Consulting, i helpu Cyrff Cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel 'fframwaith ar gyfer meddwl' wrth ddatblygu a dylunio prosiectau. Mae wedi cael ei brofi a'i ddefnyddio gan nifer o gyrff cyhoeddus a'i fireinio ar sail eu hadborth.


Dylai pob corff sy'n gyfrifol am brosiectau yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus fedru deall eu prosiectau'n llwyr a medru disgrifio sut y maent yn cael eu dylunio i gynorthwyo bwriadau'r Ddeddf. Mae'r Fframwaith yn helpu i droi cysyniadau cyfreithiol (yn y Ddeddf) yn argymhellion hawdd eu deall wedi eu ffocysu ar brosiectau, a fyddant, pan gânt eu dilyn, yn helpu i ddylunio prosiectau gwell/mwy grymus.

Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi mynegiant i'r **pum dull o weithio** a'r **saith nod llesiant** fel argymhellion statudol i'w hystyried ar gyfer trwytho syniadau a llunio datblygiad prosiectau o bwys, yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd prosiectau.

Mae'n gofyn i Gyrff Cyhoeddus ystyried eu **hamcanion llesiant** hwy eu hunain ac **amcanion a chynlluniau llesiant lleol** (a gynhrychir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) i sicrhau bod y prosiect yn cyfrannu tuag at gyflawni'r rhain ochr yn ochr â nodau llesiant cenedlaethol.

Gellir defnyddio'r Fframwaith hwn gan bob un o'r rhai hynny sy'n ymgyfrannu mewn dylunio a datblygu prosiectau yng Nghymru yn ogystal ag unigolion, grwpiau cymunedol ac eraill sy'n ymroi i gwestiynu a herio i ba raddau mae Cyrff Cyhoeddus yn defnyddio'r Ddeddf, ac yn arbennig yn defnyddio'r pum dull o weithio i drwytho'u penderfyniadau.

Datblygwyd y Fframwaith yn wreiddiol ar gyfer prosiectau seilwaith; fodd bynnag gellir ei gymhwyso i ystod eang o brosiectau.



Sut i ddefnyddio'r Fframwaith

Mae'r Fframwaith wedi ei ddylunio i fod yn ddull rhyngweithiol o weithio, un sy'n rhoi mynegiant i'r Ddeddf, fel modd o sbarduno dylunio a gweithredu prosiectau. Mae iddo dair rhan:

1

Gwneud y cysylltiadau:

Mae pob Corff Cyhoeddus wedi pennu ei amcanion llesiant; mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) wedi cydweithio i ymgymryd ag asesiadau llesiant lleol ac wedi datblygu amcanion llesiant a chynlluniau ar gyfer eu hardaloedd. Ym mhob achos rhaid i'r amcanion hyn facsimeiddio cyfraniad y corff i'r nodau llesiant cenedlaethol. Dylech ystyried sut y gallwch gynorthwyo darpariaeth yr amcanion hyn drwy wneud cysylltiadau ac integreiddio'ch prosiect o fewn cyd-destun llesiant lleol eich ardal.

2

Defnyddio'r pum Dull o Weithio

fel eich man cychwyn ar gyfer maccsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod Llesiant:

Bydd sefydlu'r Dulliau o Weithio, i lawer o gyrff cyhoeddus, yn golygu newid radical mewn arferion gwaith a allai fod yn heriol. I wireddu'r newid hwn, mae'r Fframwaith yn annog pobl i ystyried y Dulliau o Weithio yn gynnar a thrwy gydol yr holl broses:

▪ Cychwyn datblygu'r prosiect:

cychwynnwyd drwy ystyried y Pum dull o Weithio mor gynnar â phosibl yn natblygiad y prosiect, sut fedrwch chi ddefnyddio'r egwyddorion hyn ar gyfer cymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion llesiant a chyfrannu i'r saith nod llesiant?

▪ Adolygu'r prosiect:

mae'r Fframwaith hefyd yn gofyn i gyrff ystyried y Dulliau o Weithio ar ddiwedd y broses. Bydd hyn yn caniatáu cyfle i fyfyrion a datblygu arferion i wella prosiectau yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith eich cynorthwyo i feddwl mewn dull holistig, a'ch helpu i ddangos a rhoi tystiolaeth o'r modd yr ydych yn meddwl yn wahanol a gwneud penderfyniadau'n wahanol.

3

Adlewyrchu a dangos newid

Yn gynnar ac ailadroddol:

- Mae'r Fframwaith wedi ei ddylunio i fod yn ailadroddol a rhyngweithiol i helpu meddwl yn y cyfnod cynnar, yn hytrach na bod yn flychau ticio neu restr wirio i'w cwblhau. Y bwriad yw helpu sefydliadau i wneud gwell penderfyniadau yn y lle cyntaf nid bod yn ddull o gyfawnhau penderfyniadau ar ôl iddynt gael eu gwneud. Y bwriad yw helpu i roi mynegiant i'r modd y mae'r Ddeddf yn berthnasol i (seilwaith) brosiectau a helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu prosiectau sy'n unol â'r Ddeddf.
- I gyflawni hyn, mae angen i'r Fframwaith gael ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl yng nghyfnod rhychwantu prosiect wrth ystyried y cyfeiriad strategol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd. Gellir defnyddio'r fframwaith wedyn i sbarduno dylunio a gweithredu'r prosiect wrth iddo symud rhagddo.
- Pan fyddwch yn ailymweld â'r fframwaith, byddwch yn medru dangos sut, drwy eich prosiect, yr ydych yn gwneud y cyfraniad gorau i'ch amcanion llesiant a'ch nodau llesiant, er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Byddwch yn medru dangos sut mae'r fframwaith wedi eich helpu i wneud hyn.

Ystyriaethau'n ymwneud â'r Fframwaith:

Sut mae'r nodau llesiant yn perthyn i'w gilydd.

- Nid yw'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i flaenoriaethu nodau arbennig, a rhoddir i bob nod yr un maint o bwysigrwydd yng nghyd-destun cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae'r nodau hefyd wedi eu dylunio i atgyfnerthu ei gilydd, sy'n golygu y disgwylir i gyrff ystyried maxsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r saith nod fel petaent yn un.
- Bydd y Fframwaith yn eich helpu i ystyried sut mae gwahanol feysydd llesiant yn perthyn i'w gilydd er mwyn annog integreiddio pellach - dim ond rhai enghreifftiau a restrwyd gennym; os byddwch o'r farn bod cysylltiadau eraill yn berthnasol, gallwch eu hychwanegu.
- Mae'n bosibl y bydd rhai prosiectau heb gysylltiad amlwg â'r holl nodau, ond disgwylir i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi meddwl yn greadigol am sut i gyfrannu i bob nod - hyd yn oed os y bydd yr effaith yn anuniongyrchol i rai - tra'n sicrhau nad ydynt yn tansellio neu'n anghofio unrhyw un o'r nodau.
- Mae'r un peth yn berthnasol i amcanion llesiant: Os oes yna wrthdaro rhwng amcanion, mae'r arweiniad statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum dull o weithio i ddatrys y fath wrthdaro.

Integreiddio ystyriaethau strategol o'r nodau a'r amcanion llesiant seiliedig ar brosiectau (sydd wedi eu dylunio i alinio gyda'r nodau)

- Mae'r Fframwaith yn integreiddio dau ddimensiwn pob nod (fel y mynegwyd mewn dwy golofn):
- Ystyried ym mha fodd y mae'r prosiect yn rhagori ar eraill fel y datrysiad strategol mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r mater a nodwyd, yn arbennig yn nhermau hybu bwriadau'r Ddeddf, a
- Dylunio nodweddion arbennig i mewn i brosiectau i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf. ct.

Statws y Fframwaith hwn

Rydym yn gwneud y Fframwaith hwn yn hygyrch i Gyrff Cyhoeddus, ac eraill, o dan ein pŵer i ddarparu cymorth, fel y gall helpu pobl i ddeall sut y dylai'r Ddeddf gael ei hystyried wrth ddylunio a datblygu prosiectau neu fentrau eraill o bwys.

Rydym yn dymuno gweld y Fframwaith hwn yn esblygu ac yn awyddus i dderbyn adborth ar ei ddefnyddioldeb. Rydym wedi ymrwymo i'w gadw'n agored ar gyfer cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson ar sail adborth. Rydym felly'n annog y rhai sydd naill ai wedi darllen neu ddefnyddio'r Fframwaith i anfon eu hadborth i ni drwy gyfrwng cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru. Os yr ydych wedi defnyddio'r Fframwaith, a phenderfynu ei fod yn ddefnyddiol, os gwelwch yn dda rhannwch eich profiad gyda ni.

Rydym hefyd yn ymroi i ddatblygu'r Fframwaith hwn ymhellach fel y gellir ei gymhwyso ar lefel Polisi/Rhaglen. Os hoffech ymgyfrannu mewn cynorthwyo'r gwaith hwn ac/neu dreialu'r Fframwaith os gwelwch yn dda cysylltwch â ni.